Office for Product
Safety & Standards

2023



# Ydy'ch bleinds chi'n saff?

**Gall cylch o gortyn neu gadwyn ar fleinds dagu babanod a phlant bach. Ond mae yna gamau syml i'w cymryd i'w cadw allan o gyrraedd.**

**Gall ein cyngor ni helpu i gadw rhai bach yn saff.**


(23097-WEL) 6.8547_DBT_OPSS Blind Cord Leaflet.indd 1 12/1/2023 8:52:38 AM


# Rhestr wirio diogelwch bleinds


Mae newidiadau yn y safonau ar gyfer bleinds yn 2014 wedi arwain at well diogelwch yn y cynhyrchion. Rhaid i fleinds newydd sydd â dolen o gortyn gael dyfais diogelwch plant wedi'i gosod pan gawson nhw eu gweithgynhyrchu neu'n cael ei gwerthu gyda'r bleinds. Ond, efallai na fydd gan fleinds a osodwyd yn gynharach mo'r nodweddion hyn a gallai miliynau o aelwydydd fod hebddyn nhw. Bydd ein cyngor ni'n eich helpu i wneud eich cartref yn fwy diogel i'ch plant ac i ymwelwyr ifanc.

## ✓ Gosodwch declyn tacluso neu dynhau, neu fachyn

Dylai teclynnau tacluso a thynhau gael eu gosod yn gadarn ar arwyneb cyfagos fel bod y cortyn neu'r gadwyn yn dynn drwy'r amser. Dylai bachau gael eu gosod allan o gyrraedd plant ar arwyneb cyfagos, o leiaf 1.5 metr o'r llawr. Dylech glymu'r cortyn mewn ffigur wyth bob tro ar ôl defnyddio'r bleinds, a sicrhau bod yr holl gortyn sbâr wedi'i glymu ar y bachyn.







## ✓ Symudwch ddodrefn i ffwrdd o ffenestri

Mae plant wrth eu bodd yn dringo, felly cadwch ddodrefn draw o fleinds ffenestri. Mae hyn yn cynnwys cotiau, gwelyau, cadeiriau uchel a chorlannau chwarae.

